

Grŵp Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol Gogledd Cymru

DATGANIAD BLYNYDDOL

EBRILL 2021 – EBRILL 2022

Cynnwys

Croeso	2
Ailddosbarthu:	4
Grŵp Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol Gogledd Cymru	5
Ein Cyflawniadau hyd yma	5
Cydweithio â Phartneriaethau eraill	7
Amcanion ar gyfer 2021-22.....	8
Atodiad Un – Aelodaeth Grŵp Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol Gogledd Cymru.....	11

Croeso i Ddatganiad Blynyddol Grŵp Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol Gogledd Cymru yn amlinellu ein hamcanion ar gyfer y deuddeg mis nesaf. Mae'r datganiad hwn yn ymdrin â'r dilyniant a wnaed yn erbyn cynllun gwaith blynyddol 2020-21 ar gyfer y Grŵp.

Sefydlwyd GCCTRh Gogledd Cymru ym mis Medi 2020, ac mae wedi disodli'r cyn Bwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol (PCRh) yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ym mis Hydref 2020 i gyfuno'r grant Cefnogi Pobl, y grant Atal Digartrefedd a'r grant Rhentu Doeth Cymru yn un gronfa ariannu; y Grant Cymorth Tai. Roedd y cyn PCRh Gogledd Cymru'n goruchwylio'r grant Cefnogi Pobl. Fodd bynnag, roedd grant newydd yn golygu canllawiau newydd ar ddarparu grantiau ac felly mae gennym grŵp rhanbarthol newydd erbyn hyn; y GCCTRh, sy'n goruchwylio'r Grant Cymorth Tai ar draws y chwe awdurdod lleol.

Dyma grynodedb o rôl y GCCTRh, lle gallwch ddod o hyd i Ganllawiau'r Grant Cymorth Tai a'r hyn y mae'r Grant Cymorth Tai yn ymwneud ag ef, a dadansoddiad o'r grant ar gyfer pob awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru:

Beth yw GCCTRh?

Mae Canllawiau'r Grant Cynnal Tai yn nodi; rôl y GCCTRh (Grŵp Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol) yw darparu fforwm ar gyfer cydweithio. Disgwylir i awdurdodau lleol ddangos sut y maent wedi ymgysylltu â'r GCCTRh ar gyfer eu rhanbarth. Mae'r canllawiau'n amlinellu gweithio rhanbarthol fel a ganlyn:

- Datblygu gwasanaethau arbenigol nad oes mäs critigol ar eu rhan yn lleol
- Datblygu gwasanaethau rhanbarthol lle y gellir eu cyfiawnhau gan arbedion o raddfa
- Cyflawni gwelliannau i'w cyflawni drwy gydweithio
- Cydweithio â gwasanaethau cyhoeddus eraill.

Bob blwyddyn disgwylir i bob GCCTRh ledled Cymru gyflwyno datganiad blynyddol yn amlinellu eu hamcanion.

Ble medraf i ddod o hyd i'r Canllawiau ar gyfer y Grant Cymorth Tai?

Gellir dod o hyd i Ganllawiau'r Grant Cymorth Tai, a gyhoeddwyd gyntaf ym mis Chwefror 2020 ac a ddiweddarwyd yn ddiweddar ym mis Ebrill 2021, drwy glicio ar y ddolen hon:

<https://llyw.cymru/grant-cymorth-tai-canllawiau-ymarfer>

Beth yw Grant Cymorth Tai?

Mae GCT (Grant Cymorth Tai) yn gyfuniad o dri grant sy'n bodoli eisoes; Rhaglen Cefnogi Pobl, Grant Atal Digartrefedd a Grant Gorfodi Rhentu Doeth Cymru.

Mae GCT yn fecanwaith grant sy'n ariannu rhan o 'Raglen Cymorth Tai' gyffredinol sy'n cwmpasu'r ddyletswydd ddigartrefedd statudol a ariennir drwy'r setliad refeniw a'r gwasanaeth ataliol cymorth tai anstatudol a ariennir drwy'r GCT. Mae edrych ar y ddau fel cyfanwaith yn caniatáu i Gymru ddefnyddio dull systematig o leihau digartrefedd ac effaith digartrefedd a thai ansefydlog.

Mae GCT yn rhaglen grant ymyrraeth gynnar i gefnogi gweithgarwch, sy'n atal pobl rhag dod yn ddigartref, sefydlogi eu sefyllfa tai, neu helpu pobl a allai fod yn ddigartref i ddod o hyd i lety a'i gadw.

Mae GCT yn cefnogi pobl sy'n agored i niwed i fynd i'r afael â'r problemau, sydd weithiau'n lluosog, y maent yn eu hwynebu, megis dyled, cyflogaeth, rheoli tenantiaeth, camddefnyddio sylweddau, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a materion iechyd meddwl.

Dyraniad GCT Gogledd Cymru

Dyrannwyd 40 miliwn o bunnoedd ychwanegol i Grant Cymorth Tai Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021-22, yn dilyn cais gan swyddogion yn Llywodraeth Cymru. Roedd y cynnydd hwn i gyllideb GCT 2021-22 yn cydnabod y buddsoddiad sydd ei angen i roi terfyn ar ddigartrefedd, gyda'r arian ychwanegol yn dod o gyllideb graidd Llywodraeth Cymru, yn hytrach nag o gyllideb sy'n gysylltiedig â Covid. Y neges gan Lywodraeth Cymru yw i ystyried mai'r cynnydd mewn cyllid grant yw'r llinell sylfaen newydd ar gyfer y GCT wrth symud ymlaen, felly gall awdurdodau lleol gynllunio o flaen llaw gyda rhywfaint o sicrwydd.

Fel y dengys y tabl isod, bu cynnydd sylweddol i ddyraniad pob awdurdod lleol ar gyfer y Grant Cymorth Tai:

Awdurdod Lleol	Dyraniad GCT ar gyfer eleni 2021-22	Dyraniad GCT y flwyddyn flaenorol 2020-21
Ynys Môn	£3,571,720.50	£2,714,998
Gwynedd	£6,802,616.45	£5,170,923
Conwy	£8,645,095.79	£6,571,460
Sir Ddinbych	£7,356,535.02	£5,591,976
Sir y Fflint	£7,828,610.00	£5,950,818
Wrecsam	£6,721,499.09	£5,109,262
Gogledd Cymru	£40,926,076.85	£31,109,437

Mae'n bwysig bod y GCCTRh yn parhau i gadw hyn yn uchel ar ei agenda a rhwydweithiau cysylltiedig ehangach, mae'r pennawd nesaf yn rhoi gwybodaeth gefndir i'r mater hwn i egluro pam ei fod yn risg uchel i'r Grant Cymorth Tai yng Ngogledd Cymru.

Aiddosbarthu:

Datblygwyd y fformiwla wreiddiol yn ôl yn 2003 pan gyflwynwyd y rhaglen Cefnogi Pobl (cyn iddi fod yn un grant cyfunol) a gofynnwyd i awdurdodau lleol “wneud y mwyaf o’r pot” yn seiliedig ar Fudd-dâl Tai i ddangos yr angen i’w hawdurdod. Yna dyrannwyd eu grant i bob un o’r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, ac roedd y symiau’n amrywio’n sylweddol; ond roedd yn adlewyrchu’r ymdrechion a wnaed gan awdurdodau i adlewyrchu eu hangen presennol bryd hynny pan ofynnwyd iddynt wneud hynny gan Lywodraeth Cymru.

Dros y blynyddoedd mae hyn wedi dod â thensiwn i’r rhaglen Cefnogi Pobl; pam mae rhai awdurdodau’n cael mwy nag eraill, ac fe’i trafodwyd yn Adolygiad Aylward o’r rhaglen Cefnogi Pobl (sydd bellach yn rhan o’r grant ehangach – Grant Cymorth Tai) pan gafodd ei adolygu yn ôl yn 2012 gan yr Athro Aylward.

Yn dilyn hynny, cyflwynodd yr adolygiad hwn yn 2012 fformiwla ariannu newydd i ddsbarthu arian yn decach; fodd bynnag, byddai’r fformiwla hon yn cael effaith andwyol ar wasanaethau i’r Awdurdodau Lleol a fyddai’n colli swm sylweddol o gyllid. Ni weithredwyd y fformiwla gan Lywodraeth Cymru. Yn 2019, ailedrychodd Llywodraeth Cymru ar yr agenda Aiddosbarthu a chomisynnodd contractwyr allanol (ALMA Economics) i adolygu fformiwla Aylward ac o ganlyniad cynigiwyd fformiwla ariannu newydd ym mis Mawrth 2020.

Byddai’r fformiwla ariannu newydd, pe cai ei chymeradwyo yn ystod tymor y Gweinidog, yn arwain at y newidiadau canlynol i ddyraniad yr awdurdod:

Awdurdod Lleol	Dyraniad GCT ar gyfer 2021-22	% o gynnydd / gostyngiad a gynigiwyd ym mis Mawrth 2020	Sut olwg fydd ar y % hwn o ran y dyraniad
Ynys Môn	£3,571,720.50	Cynnydd o 6.2%	£3,793,167.17
Gwynedd	£6,802,616.45	Gostyngiad o 9.6%	£6,149,565.27
Conwy	£8,645,095.79	Gostyngiad o 21.2%	£6,812,335.49
Sir Ddinbych	£7,356,535.02	Gostyngiad o 15.8%	£6,194,202.49
Sir y Fflint	£7,828,610.00	Gostyngiad o 4.3%	£7,491,980.00
Wrecsam	£6,721,499.09	Gostyngiad o 5.5%	£6,351,816.65
Gogledd Cymru	£40,926,076.85		£36,793,067.07 Gostyngiad o £4,133,009.78 (yn gynnwys cynnydd Ynys Môn)

Cymerodd bandemig i ddangos gwir werth cymorth sy’n gysylltiedig â thai i’r grant gael ei gydnabod a’i gynyddu. Er bod gwir angen y cyllid ychwanegol ac mae i’w groesawi, wedi hynny, mae’r bygythiad

sydd ar y gorwel o aiddosbarthu ar adeg lle nad ydym yn gwybod gwir effaith y pandemig hwn yn peri pryder i awdurdodau.

Nid yw cyflwyniadau i awdurdodau yn lleihau, mae llwythi achosion yn dal yn uchel iawn, a phan fydd awdurdod yn symud rhywun ymlaen o lety dros dro neu frys mae'r slot hwnnw wedi'i lenwi mor gyflym ag y caiff ei wagio. Nid oes gan rai awdurdodau fwy o lety dros dro ar gael, y pwysau hyn wedi'i gyfuno â phwysau arfaethedig canlyniadau'r pandemig lle disgwylir y bydd awdurdodau'n cael cyflwyniadau pellach yn sgil colli swyddi / cynnydd mewn dyledion o'r pandemig gan arwain at golli cartref, chwalfa deuluol, iechyd meddwl gwael, pwysau mewn perthynas; trais a cham-drin domestig, bydd y pobl / teuluoedd hyn yn cyflwyno mewn argyfwng.

Mae'r neges yn syml; mae awdurdodau a darparwyr mewn argyfwng, mae'r llety sydd ar gael yn brin ac yn gyfyngedig, os caiff ein grantiau eu torri'n sylweddol, bydd yn rhaid i awdurdodau ddatgomiysu rhai darparwyr a phrosiectau ac ni fydd yn bosibl i fodloni'r ddyletswydd i letya pawb ar gyllidebau is, gan ei fod dan straen yn awr.

Yn anffodus, rhaid cadw'r neges llwm hon yn uchel ar ein agenda.

GCCTRh Gogledd Cymru

Fel pob grŵp newydd a ffurfiwyd yn 2020, bu'n rhaid i'n cyfarfodydd fod yn rhithwir. Cyngorodd Llywodraeth Cymru i ohirio gwaith y GCCTRh ym mis Mawrth 2020 oherwydd pandemig Covid-19 a bu inni ailymgynnull ym mis Medi 2020.

Mae dod â llu o aelodau newydd o amgylch bwrdd rhithwir wedi cael ei heriau. Nid ydym wedi cael y cyfle i rwydweithio fel y cyfryw, a all lesteirio cyfranogiad. Tuedda cyfarfodydd ar-lein i fod yn fwy strwythuredig, maent hefyd yn gyflym (nid ar bwrpas), nid yw llwyfannau rhithwir yn dal distawrwydd yn dda i roi amser i bobl fyfyrto.

Mae hyn yn dal yn newydd i bob un ohonom, ac mae angen inni ddod i arfer â'r llwyfannau rhithwir i sicrhau bod gennym dryloywder mewn cyfarfodydd, caniatáu ar gyfer naturioldeb a cheisio sicrhau bod gennym ddigon o ryngweithio ar eitemau agenda wrth symud ymlaen. Bydd hyn yn cael ei flaenoriaethu wrth symud ymlaen yn GCCTRh, bydd yn flaenoriaeth inni sicrhau y gallwn adeiladu ar rwydweithio a rhyngweithio'n rhithwir. Wrth symud ymlaen; bydd craffu ar gynlluniau gwario yn rhithwir yn un o'n heriau.

Serch hynny, mae cyfarfodydd rhithwir wedi golygu presenoldeb mawr. Mae Gogledd Cymru'n rhanbarth mawr ac mae'r amser a dreuliyd yn teithio ar gyfer cyfarfodydd boreol wedi bod yn problem erioed, ac mae presenoldeb da wedi bod yn fudd i'r platfform hwn.

Ein Cyflawniadau hyd yma

Y llynedd, cytunwyd mai ein hamcanion fyddai:

1. Mabwysiadu grŵp Strategaeth Ranbarthol Digartrefedd Gogledd Cymru fel is-grŵp o'r GCCTRh.
2. Aiddosbarthu – sicrhau bod pob aelod yn ymwybodol o'r mater sy'n wynebu'r Grant Cymorth Tai
3. Parhau â holl ddogfennau defnyddiwr gwasanaeth y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol blaenorol – Mae'r rhain yn cynnwys Straeon Ein Pobl; dogfen a ddiweddarir yn flynyddol yn

arddangos chwe astudiaeth achos ar draws y rhanbarth a chost y cymorth yn erbyn y gost a arbedir i wasanaethau statudol eraill. Parhau â'r holiadur adborth defnyddiwr gwasanaeth cefnogi pobl ar-lein, cynhyrchir adroddiadau dadansoddi rheolaidd sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai.

4. Archwilio'r potensial i loches Cam-drin Domestig dderbyn diagnosis deuol (Camdefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl)
5. Symleiddio'r achosion troseddwy rhyw cofrestredig a deinamig achosion Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd
6. Gwefan rhanbarthol
7. Cydweithio â chyrrff / partneriaethau rhanbarthol eraill

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu dilyniant a wnaed yn erbyn pob maes blaenoriaeth a restrir uchod.

1	Strategaeth Digartrefedd Rhanbarthol	<p>Mae'r Strategaeth Digartrefedd Rhanbarthol bellach yn adrodd i'r GCCTRh. Comisiynwyd Laura Patterson Ltd gan y rhanbarth i roi canfyddiadau i ni ar:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Dod allan o bandemig Covid-19 wedi dysgu gwersi a newid y ffordd rydym ni'n gweithio. 2. Defnyddio data / gwybodaeth i'r digartref y tu hwnt i'r ystadegau er mwyn deall yn well yr angen a rhagamcanu'r galw am wasanaethau yn y dyfodol. 3. Datblygu ffrwd waith ar roi terfyn ar droi allan i ddigartrefedd.
2	Ailddosbarthu	<p>Mae pob aelod mewn cyfarfod GCCTRh wedi derbyn papur cryno o'r llinell amser ailddosbarthu hyd yma. Ers hynny, mae hyn wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu'r cynnydd yn nyraniadau'r Grant Cymorth Tai gan y bydd y cynnig presennol ar gyfer ailddosbarthu ar gyfer toriadau canrannol yn dal i fod yn berthnasol i'r dyraniad newydd os caiff ei gymeradwyo gan y cynulliad nesaf.</p> <p>Mae'r GCCTRh wedi datblygu cynllun cyfathrebu ar gyfer pryd y trafodir Ailddosbarthu yn gyffredinol nesaf gan Lywodraeth Cymru.</p>
3	Lleisiau Defnyddwyr Gwasanaeth	<p>Mae Straeon Ein Pobl wedi'i ddiweddarau unwaith eto, blwyddyn newydd o astudiaethau achos a dadansoddiad cost a budd yn erbyn y gost a ataliwyd i wasanaethau statudol.</p> <p>Mae gwerth blwyddyn o ddata o'r holiadur adborth defnyddiwr gwasanaeth ar-lein wedi'i ddadansoddi a'i gynnwys mewn dogfen yn dangos geiriau'r defnyddwyr gwasanaeth, ble byddent heb y gwasanaeth, a sut mae'r gwasanaeth wedi newid eu bywydau.</p> <p>Bydd y ddwy ddogfen yn parhau i gael eu diweddarau'n flynyddol yn y GCCTRh.</p>
4	Lloches Diagnosis Deuol	<p>Bydd hyn yn cael ei archwilio yng nghynllun gwaith datganiad blynyddol eleni.</p> <p>Mae trafodaethau wedi dechrau gyda Grŵp Comisiynu VAWDASV.</p>
5	Trefniadau Amlasiantaethol	<p>Ar ôl archwilio'r maes blaenoriaeth hwn ymhellach, mae'n amlwg bod gwaith ar hyn wedi'i gyflawni'n flaenorol y tu allan i'r GCCTRh gan</p>

	ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd	Swyddogion Adsefydlu Gogledd Cymru. Cytunwyd ar gytundeb cytbwys â'r ffurflenni a'r gweithdrefnau priodol.
6	Gwefan	Y canlyniad oedd peidio â chreu Grant Cymorth Tai Gogledd Cymru na gwefan GCCTRh ar hyn o bryd. Wrth ffactora rhesymau, cost rhedeg gwefan mewn cyfnod o bandemig; angen i arian fynd yn uniongyrchol i gefnogi ein cymunedau. Ffactorau eraill; niferoedd sy'n ymweld â'r safle, rhagwelwyd y gallai'r traffig fod yn isel ar gyfer gwefan GCCTRh, tuedda cymunedau fynd yn syth i'r lle lleol cyntaf. Cytunwyd i barhau i ddefnyddio gwefan Conwy i gynnal cofnodion y GCCTRh. Os bydd traffig i'r wefan bresennol yn cynyddu, bydd hyn yn cael ei ailystyried.
7	Cydweithio	Cysylltiadau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol oedd y flaenoriaeth wrth sefydlu'r GCCTRh. Cynrychiolydd tai'r awdurdod lleol ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yw'r is-gadeirydd ar y GCCTRh. Mae'r Cydgysylltydd Datblygu Rhanbarthol yn mynychu cyfarfodydd Rheolwyr Perthynas y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Bob blwyddyn mae GCCTRh yn cyflwyno'r datganiad hwn a'r cynnydd a wnaed. Bydd cyfleoedd i gomisiynu ar y cyd yn cyflwyno eu hunain naill ai mewn cyfarfodydd, neu gyfarfodydd rheolwyr perthynas.

Mae adolygiad o'r GCCTRh hefyd wedi'i gwblhau a'i rhannu ag aelodau GCCTRh. Bydd ei gynnwys yn helpu i lunio cyfarfodydd GCCTRh yn y dyfodol.

Cydweithio â Phartneriaethau eraill

Gan barhau o'r cysylltiadau a ffurfir ar hyn o bryd â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, er mwyn i waith rhanbarthol fod yn llwyddiannus, bydd angen i'r GCCTRh sicrhau bod cysylltiadau'n cael eu gwneud lle mae cymorth tai yn elfen o agenda ranbarthol arall. Rydym wedi rhestru byrddau lle mae elfen o ymwneud â thai yn hysbys isod.

Mae canllawiau'r Grant Cymorth Tai yn nodi "Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn darparu'r mecanwaith ar gyfer datblygu cydweithio rhwng Iechyd, Cymdeithasol a Thai. Felly, hwy yw'r mecanwaith cywir i GCCTRh feithrin perthynas waith agos". Adlewyrchir hyn hefyd yn rhan 9 o'r canllawiau wedi'u diweddarau ar gyfer y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol lle mae'n nodi 'Dylai trefniadau is-grwpiau hefyd gynnwys grwpiau i ganolbwyntio ar atebion a arweinir gan dai a llety i iechyd a gofal cymdeithasol'.



Dros y deuddeg mis nesaf byddwn yn canolbwyntio ar ymrwymo i wella ac archwilio cydweithio posibl gyda'r byrddau uchod ac i hyrwyddo enw'r GCCTRh yn fwy eang yng Ngogledd Cymru a chyda'r nod o archwilio potensial comisiynu / prosiectau rhanbarthol neu isranbarthol.

Amcanion ar gyfer 2021-22

Mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith aruthrol ar ddiartrefedd, mae'r ffordd y mae awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau wedi gorfod ymateb i anghenion y rhai sy'n profi digartrefedd neu sydd mewn perygl o fod yn ddiartref wedi bod yn aruthrol.

Mae'r ymateb i'r pandemig yn cael ei gasglu gan yr ymgynghorydd a gomisiynwyd yn y grŵp Strategaeth Digartrefedd Rhanbarthol; sy'n cyfweld staff awdurdodau lleol, darparwyr a defnyddwyr gwasanaeth sy'n derbyn cymorth sy'n gysylltiedig â thai. Bydd y GCCTRh yn derbyn adroddiad gan y grŵp yn manylu ar y gwersi a ddysgwyd sydd wedi deillio o'r pandemig a ffyrdd y gallwn newid y ffordd rydym yn gweithio wrth symud ymlaen.

Yn y GCCTRh byddwn yn parhau â'r drafodaeth; beth fydd yn digwydd i'r bobl sydd wedi'u rhoi mewn llety dros dro wrth i gyfyngiadau ddechrau llacio a sut y bydd Gogledd Cymru yn ymateb i hyn? Mae'r grŵp Strategaeth Digartrefedd Rhanbarthol hefyd yn edrych ar sut rydym yn defnyddio data / gwybodaeth ar ddiartrefedd y tu hwnt i'r ystadegau er mwyn deall yn well yr angen a rhagamcanu'r galw am wasanaethau yn y dyfodol. Bydd y GCCTRh yn ystyried sut yr ydym yn monitro'n rhanbarthol y materion cyfredol a wynebwr yn sgil Covid-19, ond hefyd y canlyniadau a pha gynlluniau y gallwn eu cael ar waith i'r cyflwyniadau cynyddol i wasanaethau digartrefedd.

Rydym wedi codi gyda Grŵp Cydweithredu Rhanbarthol Gogledd Cymru sy'n ymateb i Covid-19 fod y diffyg tai sydd ar gael yn broblem enfawr ac wedi cyflwyno hynny i'r bwrdd fel risg. Mae cyllid Cam 2 a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y pandemig wedi caniatáu i rai unedau ychwanegol gael eu prynu drwy wariant cyfalaf. Bydd y GCCTRh yn parhau i oruchwylio datblygiad arian Cam 2.

Er mai papur yw hwn i amlinellu ein hamcanion ar gyfer y deuddeg mis nesaf, hoffai'r GCCTRh nodi'r ymdrechion rhyfeddol a wnaed gan bob darparwr ac awdurdod lleol yn ystod y pandemig i gael pawb oddi ar y stryd a'u cartrefu. Tasg enfawr oedd hon; a gwnaed hyn gan Gogledd Cymru, daethpwyd o hyd i atebion tai dros dro arloesol; byncabanau / cabanau, gwely a brecwast, llety prifysgolion, gwestai; ac yn awr mae staff yn parhau i fod o dan bwysau i symud pobl ymlaen i lety mwy addas mewn rhanbarth lle mae tai mor gyfyngedig.

Bydd yr GCCTRh yn parhau i drafod Ailgartrefu Cyflym, Tai yn Gyntaf; fodd bynnag, bydd GCCTRh yn llais o Gogledd Cymru i Lywodraeth Cymru bod angen mwy o arian cyfalaf ar y mentrau hyn i fod yn llwyddiannus er mwyn tyfu'r stoc sydd ar gael i gymorth tai.

Ar gyfer y deuddeg mis nesaf, mae GCCTRh wedi nodi blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer ei gynllun gwaith. O fewn canllawiau'r Grant Cymorth Tai mae gweithio rhanbarthol yn cael ei gategoreiddio fel a ganlyn:

- Categori 1) Datblygu gwasanaethau arbenigol nad oes mäs critigol ar eu cyfer yn lleol
- Categori 2) Datblygu gwasanaethau rhanbarthol lle y gellir eu cyfiawnhau gan arbedion maint
- Categori 3) Cyflawni gwelliannau i'w cyflawni drwy gydweithio
- Categori 4) Cydweithio â gwasanaethau cyhoeddus eraill.

*Beth yw meysydd blaenoriaeth rhanbarthol GCCTRh ar gyfer 2021-22?***Categori 1: Datblygu gwasanaethau arbenigol nad oes màs critigol ar eu cyfer yn lleol.**

Bydd ein holiadur adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau Gogledd Cymru a data asesu anghenion tai Grant Cymorth Tai awdurdod lleol yn amlygu bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir. Y blaenoriaethau o dan y categori hwn i'w datblygu gan GCCTRh ar gyfer 2021/22 yw:

- Hyfforddiant LGBTQ+ rhanbarthol
- Prosiect rhanbarthol / uned wasgaredig LGBTQ+
- Prosiect celcio rhanbarthol
- Archwilio uned wasgaredig / lloches ar gyfer goroeswyr gwrywaidd cam-drin domestig

Categori 2: Datblygu gwasanaethau rhanbarthol lle y gellir eu cyfiawnhau gan arbedion maint

Bydd GCCTRh yn parhau i ariannu prosiect rhanbarthol Cam 2 a gomisiynwyd ar y cyd â'r bwrdd cynllunio ardal ar gyfer gwasanaeth Allgymorth Cydweithredol Gogledd Cymru.

Mae'r GCCTRh hefyd wedi cymeradwyo cyfrannu am flwyddyn arall i'r Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol a gomisiynwyd ar y cyd gyda'r cyllid VAWDASV a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau. Mae blwyddyn arall o gyllid hefyd wedi'i ymrwymo ar gyfer cryfhau targedau ac mae wedi cynyddu mewn rhai awdurdodau lleol.

Bydd y GCCTRh, yn unol â grŵp comisiynu VAWDASV, yn archwilio'r potensial ar gyfer lloches cam-drin domestig diagnosis deuol rhanbarthol.

Categori 3: Cyflawni gwelliannau i'w cyflawni drwy gydweithio

Bydd GCCTRh yn parhau i feithrin cysylltiadau lle mae cymorth tai yn elfen o agenda rhanbarthol arall ac yn sicrhau bod cydweithio a gweithio mewn partneriaeth ar lefel rhanbarthol i sicrhau gwelliannau i wasanaethau.

Bydd hyfforddiant pwrpasol yn cael ei archwilio gan y GCCTRh ar gyfer ein darparwyr Grant Cymorth Tai, gan edrych yn benodol ar hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddyliol.

Bydd arweinwyr y GCT yn archwilio sut y gallwn sicrhau bod gwasanaethau'n gweithredu dull amgylcheddol seicolegol ar gyfer y GCCTRh. Mae hwn yn ei hanfod yn newid diwylliant rydym yn ei flaenoriaethu i ymgorffori darpariaeth sy'n seiliedig ar drawma.

Bydd y GCCTRh yn parhau i gael Ailgartrefi Cyflym fel eitem safonol ar yr agenda wrth symud ymlaen. Mae'n hanfodol ein bod yn defnyddio'r llwyfan hwn i rannu gwybodaeth awdurdodau lleol wrth symud ymlaen tuag at Ganolfannau Ailgartrefi Cyflym ledled Gogledd Cymru.

Categori 4: Cydweithio â gwasanaethau cyhoeddus eraill.

Bydd y GCCTRh yn parhau i wella cysylltiadau â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a byrddau / partneriaethau rhanbarthol eraill lle ceir cyswllt / agenda tai. Ein His-gadeirydd, Sam Parry, Rheolwr

Gwasanaethau Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, yw cynrychiolydd tai'r awdurdod lleol ym Mwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

Bydd y GCCTRh yn parhau i ffurfioli'r llinell gyfathrebu sy'n gysylltiedig â gweithio rhanbarthol. Mae'r Strategaeth Digartrefedd Rhanbarthol bellach yn is-grŵp o'r GCCTRh. Mae angen i ni wneud gwell cysylltiadau ag iechyd a phrawf yn y GCCTRh i sicrhau bod gan yr agenda sy'n gysylltiedig â thai gysylltiadau a llwybr cyfathrebu i fynd i'r afael â materion cyfredol.

Bydd cynllun gwaith manwl ar gael ym mhob cyfarfod GCCTRh sy'n mynd i'r afael â dilyniant yn erbyn y blaenoriaethau, a rhestrir y rhain:

- Hyfforddiant LGBTQ+ Rhanbarthol
- Prosiect Rhanbarthol / Uned Wasgaredig LGBTQ+
- Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl Rhanbarthol
- Prosiect Celcio Rhanbarthol
- Uned Wasgaredig Rhanbarthol / lloches i ddynion sydd wedi goroesi cam-drin domestig
- Archwilio'r potensial ar gyfer Lloches Cam-drin Domestig Diagnosis Deuol rhanbarthol
- Archwilio cyfle rhanbarthol i ymgorffori dull Seicolegol Sy'n Gysylltiedig ar Drawma
- Ailgartrefi Cyflym

Bydd y GCCTRh hefyd yn ystyried cydosod 'Cofrestr prosiect cyffredinol' rhanbarthol. O ystyried y cynnydd yng nghyllid Grant Cymorth Tai eleni, mae'n debygol iawn y gallai fod tanwariant. Gallai'r GCCTRh ddefnyddio'r cyfle hwn i flaenoriaethu blaenoriaethau rhanbarthol eraill nad ydynt wedi mynd rhagddynt erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

I gael rhagor o wybodaeth am y GCCTRh cysylltwch â'r Cydgysylltydd Datblygu Rhanbarthol, mae manylion cyswllt ar gael yn yr atodiad lle mae aelodaeth y GCCTRh wedi'i rhannu.

Atodiad Un– Aelodaeth y GCCTRh

Aelodaeth y GCCTRh	Sefydliad / Gwasanaeth a gynrychiolir	Arweinydd
Arweinydd Strategol Awdurdodau Lleol ar gyfer y Grant Cymorth Tai	Ynys Môn	Elliw Llyr
	Gwynedd	Hedd Tomos
	Conwy IS-GADEIRYDD	Sam Parry
	Sir Ddinbych	Ann Lloyd
	Sir y Fflint	Martin Cooil
	Wrecsam	Shirley Jones neu Tracy Hague
Cynrychiolwyr Darparwyr a benodwyd gan Cymorth Cymru (pedwar darparwr a 2 landlord i gyd-fynd â'r awdurdodau lleol)	Tai Gogledd Cymru	Lynne Evans (Is-gadeirydd)
	Digartref CADEIRYDD	Wendy Hughes
	Clwyd Alyn	Linda Hughes (cynrychiolydd landlordiaid)
	Hafan Cymru	Emma Wood
	Grwp Cynefin	Gwenan Ellis (cynrychiolydd landlordiaid)
	GISDA	Steffan Williams
Cynrychiolydd Iechyd Meddwl	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Phil Forbes
Cynrychiolydd Prawf	Gwasanaeth Prawf Gogledd Cymru	Mark Conlan
Cynrychiolydd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	Diane Jones
Cynrychiolydd Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau (BCA)	BCA	Paul Firth
Cynrychiolydd Bwrdd VAWDASV (Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Thywiol)	Tîm VAWDASV	Elwen Roberts

Cynrychiolydd o'r Sector Rhentu Preifat	NRLA (Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid Preswyl)	Tim Thomas
Aelodau Ymgynghorol – Swyddogion Arweiniol y Grant Cymorth Tai a Swyddogion Arweiniol Is-grŵp GCCTRh	Ynys Môn	Arwel Jones
	Gwynedd	Gwyn Roberts
	Conwy	Debbie Lambe
	Sir Ddinbych	Claire Owens
	Sir y Fflint	Lisa Pearson
	Wrecsam	Debbie Williams
Cydgysylltydd Datblygu Rhanbarthol (CDRh)	CDRh Gogledd Cymru	Rachel Pierce-Jones Rachel.pierce-jones3@conwy.gov.uk 01492 574234